# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Meeting of Pwyllgor Craffu Pobl held at The Council Chamber, County Hall, Rhadyr, Usk, NP15 1GA with remote attendance on Dydd Mawrth, 23ain Gorffennaf, 2024 at 10.00 am**

| Councillors Present | Officers in Attendance |
|---|---|
| County Councillor Laura Wright (Chairman)<br>County Councillor Jackie Strong, (Vice Chairman)<br><br>County Councillors: Jan Butler, Simon Howarth, Penny Jones, Maureen Powell, Sue Riley, Jill Bond, Peter Strong<br><br>Also in attendance County Councillors:<br>Ian Chandler, Cabinet Member for Social Care, Safeguarding and Accessible Health Services and Martyn Groucutt, Cabinet Member for Education | Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu<br>Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu<br>Frances O'Brien, Prif Swyddog, Cymunedau a Lle<br>Jane Rodgers, Pennaeth Gwasanaethau Plant<br>Diane Corrister, Rheolwr Gwasanaeth Diogelwch a Sicrwydd Ansawdd<br>Deb Hill-Howells, Pennaeth Gwasanaethau Landlord Masnachol ac Integredig |

**APOLOGIES:** County Councillors Christopher Edwards, Maria Stevens, Alistair Neill and Paul Pavia

1. **Datganiadau o Fuddiant**

   Dim.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

   Dim.

3. **Arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru**

   Cyflwynodd Jane Rodgers a Ben Anderson yr adroddiad sydd yn werthusiad perfformiad gan Arolygiaeth Gofal Cymru o'r gwasanaethau plant, sy'n amlygu'r cryfderau a'r meysydd gwella a ddynodwyd gan adroddiad yr arolwg. Dywedodd Ben Anderson, Arolygiaeth Gofal Cymru, fod yr arolwg yn gyffredinol gadarnhaol a bod tystiolaeth o ddatblygiad parhaus ar y gwasanaeth ers mis Chwefror. Dywedodd mai'r ffocws yn y dyfodol fyddai ar ymarfer ac ansawdd i sicrhau cydymffurfiaeth gyda dyletswyddau statudol ac i gasglu llais plant. Atebwyd cwestiynau yn fanwl gan Diane Corrister, ynghyd â Jane Rodgers a Ben Anderson.

   **Pwyntiau allweddol a wnaed gan Aelodau:**

   - Gofynnodd aelodau sut mae arweinwyr y cael mwy o drosolwg o ansawdd asesiadau a chynlluniau a nodwyd y caiff hyfforddiant, sicrwydd ansawdd a chymorth gweithredu eu darparu ar gyfer staff.
   - Gofynnodd aelod am esboniad o'r model ymarfer newydd a'r Tîm Asesu Help Cynnar,
   - Gofynnwyd am eglurdeb am ba welliannau a wneir i ddod ag arfer i fod yn unol â gweithdrefnau diogelu yng Nghymru.
   - Gofynnodd aelod arall am eglurdeb ar gydymffurfiaeth gyda gwaith papur ar gyfer cynadleddau amddiffyn plant a faint o eiriolaeth a gynigir i rieni cyn cynhadledd achos.

- Holodd y pwyllgor am y prif gryfderau a meysydd gwella a ddynodwyd yn adroddiad yr arolwg, gan nodi fod yr adroddiad wedi cydnabod fod y canlyniadau cadarnhaol a gyflawnwyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, y cymorth cynnig teuluol ac ysbryd ac arweinyddiaeth o fewn y gwasanaeth yn gryfderau. Cydnabuwyd bod y meysydd i'w gwella yn cynnwys ymateb i a delio gydag effaith galw ar draws y gwasanaeth a gwneud yn siŵr fod y gweithlu yn cyfateb gyda'r lefelau galw hynny.
- Gofynnodd aelodau am esboniad am sut mae'r tîm yn trin mater gofal a chapasiti gweithlu yn y gwasanaeth, er mwyn cadw staff a gostwng dibyniaeth ar weithwyr asiantaeth.
- Ceisiodd aelodau sicrhau y caiff llais plant ei gasglu mewn ffordd gyson ac ystyrlon ac yn dibynnu ar oedran y plentyn ac y caiff hynny wedyn ei ddangos mewn asesiadau a chynlluniau gofal.
- Cyfeiriodd aelod at baragraff 4.8 yr adroddiad sy'n awgrymu ymagwedd ofalus at reoli risg, gan gwestiynu os y gall fod gwrthddweud oherwydd bod ein nifer o blant sy'n derbyn gofal yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Eglurodd y swyddogion fod hyn i raddau oherwydd effaith galw ar y drws blaen, a bod angen i ymarfer seiliedig ar gryfderau fod yn fwy cyson ar draws pob maes o'r gwasanaeth.
- Gofynnodd aelodau am eglurdeb ar ganlyniadau'r gwasanaeth llwyfan ar gyfer iechyd emosiynol pobl ifanc.
- Holodd aelod arall am y cynnydd mewn atgyfeiriadau a hefyd atgyfeiriadau amhriodol a sut y gellid gostwng hyn, gan nodi y cynhelir dadansoddiad data ac archwilio arnynt ar hyn o bryd i ddeall y ffynonellau a'r rhesymau dros yr atgyfeiriadau. Gofynnodd aelodau am i adroddiad ar hyn ddod yn ôl atynt ar yr adeg priodol, gyda swyddogion yn cadarnhau y dylai hyn fod ar gael ar ôl mis Medi.
  **Gweithredu: Jane Rodgers a Diane Corrister.**
- Dywedodd aelod fod y ddogfen trothwy yn cynorthwyo i drin yr cynnydd mewn ffigurau, a gofynnodd os yw'r tîm yn ymwneud gydag asiantaethau partner mewn ffordd a all ddeall a rhannu eu persbectif.
- Holodd aelodau sut mae'r atgyfeiriadau gan addysg ac iechyd yn cymharu gydag awdurdodau eraill yng Ngwent a beth fedrai fod yn fylchau posibl yn strwythurau cymorth yr asiantaethau hyn.
- Gofynnodd aelod am fwy o eglurdeb ar sut mae'r un pwynt mynediad yn gweithredu yn ymarferol ac os y gellid atgynhyrchu hyn mewn meysydd eraill.
- Cwestiynodd y pwyllgor amseroldeb yr ymweliadau amddiffyn plant a chynadleddau achos a amlinellir ym mharagraff 1.4 a gofynnodd os y sicrhawyd y gwelliant a ddymunir o ran sicrhau y cynhelir cynadleddau ar sail gynharach ac amserol.
- Gofynnodd aelodau am eglurdeb am rôl yr hyfforddydd a sut y byddai eu heffaith yn cael ei fesur.
- Eglurwyd y rhesymau am y gwahaniaeth yn nifer yr atgyfeiriadau a sut y caiff hynny ei reoli.
- Gofynnodd y pwyllgor os yw'r gwasanaeth wedi symleiddio eu prosesau i ddod yn fwy effeithlon.
- Gofynnodd aelod i swyddogion pa mor hyderus ydynt nad oes achosion heb fod ar radar Gwasanaethau Cymdeithasol. Dywedodd swyddogion y byddai'n naïf meddwl y byddai pob achos ar radar gwasanaethau cymdeithasol, ond eu bod yn hyderus bod y Cyngor yn gwneud mwy o or-ymyrryd na than-ymyrryd. Ychwanegodd swyddogion fod gan y Cyngor strwythurau da ar ddiogelu a hyfforddiant ar draws y sefydliad, ond na fedrent byth fod yn 100% hyderus y gallai achosion ddigwydd.
- Mae paragraff 2.10 yr adroddiad yn dweud fod 'y rhan fwyaf o staff' yn cael eu cefnogi. Gofynnwyd i Arolygiaeth Gofal Cymru am fwy o eglurdeb am hyn, beth yw'r rhesymau pam nad yw nifer fach o staff heb gael eu cynnwys ac os ydynt yn credu y cafodd arferion gwaith ers Covid effaith.
- Soniodd y pwyllgor ar ddefnydd acronymau ac y byddai rhestr termau yn ddefnyddiol, yn arbennig ar gyfer adroddiadau sydd yn y parth cyhoeddus.

Gwnaeth yr Aelod Cabinet rai sylwadau cloi a roedd y pwyllgor yn fodlon gyda'r atebion i'r cwestiynau a ofynnwyd.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Llongyfarchodd y pwyllgor y gwasanaeth ar yr arolwg cadarnhaol a'r sylwadau am arweinyddiaeth ac adborth gan blant a gofalwyr maeth. Cytunai'r cadeirydd fod y pwyllgor wedi cynnal craffu manwl ar yr adroddiad ynghyd ag aelodau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg ac roedd yn fodlon gyda chanlyniad yr arolwg.

## 4. Polisi Trafnidiaeth o'r Cartref i'r Ysgol

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet Martyn Groucott, gan esbonio mai diben yr ymgynghoriad a'r adroddiad a gyflwynir i'r pwyllgor oedd ystyried p'un ai i fabwysiadu'r meini prawf ar gymhwyster pellter statudol ar gyfer darparu cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol. Atebodd gwestiynau aelodau gyda Debra Hill-Howells.

**Pwyntiau allweddol a wnaed gan Aelodau:**

- Gofynnodd aelodau am eglurdeb ar y ddau opsiwn ar gyfer newid y pellter statudol ar gyfer darparu cludiant am ddim a holi faint o arbedion y byddai'r naill a'r llall o'r opsiynau hyn yn ei roi. Dywedodd yr aelod nad oedd yr ymgynghoriad yn cynnig dewisiadau eraill heblaw newid y pellter statudol ar gyfer y cyhoedd i'w ystyried, er enghraifft, gynnydd yn y dreth gyngor. Cadarnhaodd y Cynghorydd Groucutt y byddai cynyddu'r dreth gyngor gan tua un pwynt canran yn cynhyrchu tua £700,000 y flwyddyn, ond y byddai angen ystyried hynny fel rhan o broses ehangach y gyllideb gan fod pwysau eraill ar y gyllideb y byddsi angen eu hystyried.
- Soniodd aelod nad yw'r adeg o'r flwyddyn yn neilltuol o dda ar gyfer sicrhau ymatebion gan y cyhoedd i ymgynghoriadau, gan y byddai llawer o bobl ar wyliau. Cadarnhawyd fod yr etholiad cyffredinol wedi gohirio dyddiad dechrau'r ymgyhghoriad, fodd bynnag anfonwyd yr holl e-byst at ddefnyddwyr presennol cludiant, ysgolion, rhanddeiliaid a gweithredwyr i'w hysbysu am yr ymgynghoriad. Cadarnhaodd swyddogion y cynhelir sesiynau mewn hybiau a bod dogfennau ar gael ar-lein yn esbonio diben yr ymgynghoriad yn ogystal ag arolwg sy'n gwahodd pobl i roi eu hadborth ar y cynigion.
- Rhannodd aelod bryderon am gynyddu'r gwasanaeth mewnol a'r goblygiadau staffio. Cadarnhaodd y swyddog y caiff cost darpariaeth mewnol ei gymharu gyda thendrau allanol ac mai dim ond os mai dyna'r opsiwn ariannol gorau y bydd y gwasanaeth mewnol yn ymgymryd â'r gwasanaeth.
- Gofynnodd aelod sut y byddai'r cyngor yn monitro effaith amgylcheddol cynyddu cyllidebau cludiant personol a defnydd ceir ac ymatebodd swyddogion fod gan y cyngor gynllun ar waith i ostwng carbon a'i fod wedi gwneud datganiad ar argyfwng hinsawdd, ac y bydd yn asesu ôl-troed carbon y gwahanol opsiynau cyllid ac yn gweithio gydag ysgolion a rhieni i hyrwyddo dewisiadau teithio cynaliadwy gan ystyried yr effaith amgylcheddol fel rhan o'r broses benderfynu, i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol.
- Gofynnodd aelod sut y byddai'r cyngor yn cefnogi rhieni mewn gwaith a all fod yn wynebu anawsterau oherwydd y newidiadau a pha fesurau lliniaru y byddid yn eu cynnig. Atebodd y Cyng Groucutt fod cymorth dewisol eisoes ar gael i helpu teuluoedd ac y byddid yn rhannu'r manylion hynny.
- Gofynnodd aelodau sut y caiff y llwybrau cerdded sydd ar gael eu hasesu ar gyfer diogelwch ac addasrwydd a chlywsant fod proses asesu Diogelwch Ffyrdd PF a gynhelir fel arfer gan swyddogion Priffyrdd. Lle caiff asesiad ei herio, bydd swyddogion yn cerdded y llwybr gyda rhieni ac aelodau.

- Holodd aelod pam nad oedd geiriad y polisi drafft wedi ei gynnwys yn y ddogfen ymgynghori a dywedwyd fod hynny oherwydd na fu newid ynddo, heblaw am y tri opsiwn a gaiff eu hystyried a phe bai unrhyw un ohonynt yn cael eu mabwysiadu, byddai'r meini prawf ar gymhwyster pellter yn cael eu diwygio yn unol â hynny. Gofynnodd yr aelod am eglurdeb y byddai geiriad y polisi yn aros yr un fath, heblaw am y tri opsiwn. Cadarnhaodd swyddogion y byddai geiriad y polisi yn aros yr un fath heblaw am y tri opsiwn, ac y caiff y diwygiadau a gynigir eu cynnwys yn adroddiad y Cabinet.
- Holodd y pwyllgor sut y byddai'r cynigion yn effeitho ar gludiant i ysgolion ffydd. Cadarnhaodd y swyddogion na fyddai'r cynigion yn newid y meini prawf ar gyfer cludiant i ysgolion ffydd ond y byddai unrhyw newidiadau i'r meini prawf ar gymhwyster pellter yn weithredol i bob dysgwr, yn cynnwys y rhai mewn ysgolion ffydd. Dywedwyd fod y ddogfen ymgynghori yn cynnwys cwestiwn am effaith y cynigion ar grefydd a chredo, ac y gall rhieni hefyd roi sylwadau neu awgrymiadau ar y mater hwn.
- Holodd aelod os y byddai cludiant a ddarparwyd gan nad oedd llwybr cerdded ar gael yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn academaidd a'r ateb a roddwyd oedd na fyddai, os na chafodd gwaith ei gwblhau i wneud y llwybr yn ddiogel, tebyg i fan croesi neu newidiadau i'r terfyn cyflymder.
- Holodd aelod os y byddai cludiant ysgol neilltuol yn dal i fod ar gael o Goetre i Ysgol y Brenin Harri ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd a chlywodd mai'r bwriad oedd ailddechrau'r gwasanaeth bws cyhoeddus ar gyfer cludiant rhwng y cartref a'r ysgol o'r Goetre ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf, gan y cafodd llwybr y gwaasanaeth bws ei newid, fel nad oes angen i ddysgwyr groesi'r A4042.
- Dywedodd aelod ei bod yn bwysig fod y cyngor yn ceisio gostwng ei ôl-troed carbon drwy ddefnyddio ei gludiant ei hun yn hytrach na chyflenwad wedi ei is-gontractio.
- Mynegodd aelodau amheuon os y byddai plant mewn ardaloedd gwledig yn cerdded 2 filltir mewn tywydd garw a gofynnodd aelod am eglurdeb ar y broses lle na fu ymgeiswyr yn llwyddiannus yn eu dewis cyntaf o ysgol, ac wedi cael cludiant i ysgol arall. Gofynnodd os y byddent yn parhau i dderbyn cludiant am ddim yn y flwyddyn ddilynol, y rheolau am frodyr a chwiorydd, teulu estynedig a theuluoedd wedi gwahanu. Cadarnhaodd swyddogion, lle cafodd dysgwr gludiant am ddim gan eu bod yn mynychu eu hysgol agosaf a ddyrannwyd gan yr adran Plant a Phobl Ifanc, yna y byddent yn parhau i dderbyn cludiant am ddim, os nad oedd newidiadau yn eu hamgylchiadau personol, tebyg i symud tŷ a byddent yn cael eu hailasesu. Ni fyddai gan frodyr a chwiorydd hawl i gludiant am ddim lle mae rhiant wedi gweithredu dewis rhiant.
- Holodd aelod beth fyddai'n cael ei ystyried pe byddai'r ymateb i'r ymgynghoriad yn negyddol iawn a dywedodd y credai oherwydd nad yw cwestiwn 1 yn gofyn os yr effeithir ar y person sy'n ateb, y gallai hynny sgiwio'r ateb Cadarnhawyd y byddai'r ymateb i'r arolwg yn ffurfio rhan o adroddiad gan y Cabinet i alluogi Aelodau i benderfynu p'un ai symud ymlaen ai peidio gyda'r cyfan neu unrhyw un o'r opsiynau.
- Holodd aelod os y byddir yn rhoi adroddiad yn ôl i'r Pwyllgor Craffu Pobl ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad cyn penderfyniad y Cabinet a chadarnhawyd fod yr amserlenni statudol ar gyfer gweithredu yn golygu nad oedd ar yr amserlen i ddychwelyd i'r pwyllgor craffu cyn penderfyniad y Cabinet a bod y cyfarfod hwn yn cyfrif fel craffu cyn-penderfyniad yn ystod y cyfnod ymgynghori.
- Gofynnodd aelodau am gadw ddolen i'r ymgynghoriad ar dudalen flaen gwefan y Cyngor tan ddiwedd y cyfnod ymgynghori. **Gweithredu: Deb Hill-Howells i ofyn am hyn drwy'r Tîm Cyfathrebu.**

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Gofynnodd y cadeirydd am farn y pwyllgor os y gellid cefnogi'r polisi ai peidio a ni fynegwyd unrhyw sylwadau croes i hynny, fodd bynnag mynegodd aelod bryder am sut y byddai'r data yn deillio o'r ymgynghoriad yn cael ei ddehongli.

5. **Blaenraglen Waith a Rhestr Weithredu'r Pwyllgor Craffu Pobl**

Nodwyd.

6. **Cynllunydd Gwaith y Cyngor a'r Cabinet**

Nodwyd.

7. **Cyfarfod nesaf: 24ain Medi 2024 am 10.00am**

Nodwyd.

The meeting ended at **12.46 pm**